

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 12-02-25

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Elwyn Jones, June Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones, Dafydd Meurig, Gwynfor Owen, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Menna Trenholme a Rob Triggs

Swyddogion: Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2024 / 25

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Ioan Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2024/25

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024 / 25

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Angela Russell a'r Cynghorydd Annwen Hughes

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 fel rhai cywir

5. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TÂL AR GYFER GWEITHLU'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2025/26, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Amlygodd y Prif Weithredwr nad oedd newid i'r polisi a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 ac mai ymarfer da yw cael trosolwg a chyhoeddi amodau gwaith y staff yn flynyddol a hynny yn unol â gofynion y Ddeddf. Nodwyd bod trafodaethau a negodi blynyddol ynglyn a chodiadau cyflog blynyddol yn digwydd tu allan i'r Cyngor - Prif

Swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol yn pennu cyflogau o dan lefel prif swyddogion. Cafwyd cytundeb ym mis Hydref ar gyfer swyddi o dan lefel prif swyddogion ar gynnydd o £1290 ar gyflog blynyddol pob Aelod o staff hyd at bwynt cyflog 43, ac yna 2.5% ar y pwyntiau cyflog uwchlaw hynny. Ategwyd nad oedd trafodaethau ar gyfer 2025/ 26 wedi dechrau.

Cyfeiriwyd at gynnydd sylweddol yn nyletswyddau a chyfrifoldebau'r Swyddog Monitro ac mewn ymateb cynhaliwyd arfarniad o'r cyfrifoldebau ychwanegol hynny gan gwmni Korn Ferry. Daethpwyd i'r casgliad bod y cyfrifoldebau ychwanegol yn gwarantu newid yng ngraddfa'r swydd ac y byddai'r trefniant yn un parhaol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn am yr addasiadau i raddfa cyflog y Swyddog Monitro a hynny ar sail trefniant parhaol, amlygwyd bod yr addasiad wedi ei ymgorffori i'r Polisi Tâl (drafft).

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl (drafft) i'r Cyngor ei fabwysiadu ar gyfer 2025/26

PENDERFYNWYD

Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth y 6ed 2025, fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2025/26

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:15